**Jane Hutt AS/MS**
**Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

19 Hydref 2023

Annwyl Jenny

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Medi, yn dilyn fy sesiwn tystiolaeth lafar i'ch ymchwiliad ar 18 Medi, yn gofyn am ragor o wybodaeth am sawl mater. Rwy'n gobeithio bod yr ymateb hwn yn ddefnyddiol.

## Atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd

Dangosyddion Cenedlaethol.

O ran y gwaith ar ddangosyddion cenedlaethol, rydym ar hyn o bryd yn gofyn i'r ffrydiau gwaith ystyried sut y gellir mesur y cynigion y maent yn eu datblygu ar gyfer gweithredu ar y cyd ar Drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) a'u hadlewyrchu mewn set ddiwygiedig o Ddangosyddion Cenedlaethol. Gellir ystyried hyn ochr yn ochr â'r gwaith a wnaed ar y rhai a gyhoeddwyd eisoes.

Yn dilyn cyfres o weithdai gyda rhanddeiliaid, gosodwyd set o Ddangosyddion Cenedlaethol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 24 Mehefin 2019:

Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV): Dangosyddion Cenedlaethol i Gymru | LLYW.CYMRU.

Dyma'r set o ddangosyddion sy'n bodoli ar hyn o bryd. Cyn pandemig Covid, y bwriad oedd datblygu'r setiau data ymhellach gyda rhanddeiliaid. Nid bwriad y gwaith hwn oedd ychwanegu at y set o ddangosyddion ond yn hytrach i wneud y gwaith o'u casglu, eu coladu a'u cyhoeddi yn fodd o gefnogi a llywio'r gwaith o ddatblygu strategaeth genedlaethol newydd.

Yn anffodus, dargyfeiriwyd adnoddau oherwydd Covid, a oedd yn golygu bod y gwaith pellach arfaethedig wedi'i ddechrau ond heb ei gwblhau. Ers hynny, mae Strategaeth

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Genedlaethol VAWDASV 2022-2026 wedi’i datblygu, ei chydgyngyrchu a’i chyhoeddi. Mae'r strategaeth ddiwygiedig yn ymrwymo i adolygu'r Dangosyddion Cenedlaethol i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r Strategaeth Genedlaethol VAWDASV gyfredol a byddant yn cael eu defnyddio i fesur cynnydd yn erbyn nodau ac amcanion y Strategaeth.

Fel y dywedais wrth y Pwyllgor, credaf ei bod yn bwysig bod y diwygiadau hyn yn adlewyrchu’n llawn y cyfeiriad a osodwyd gan y ffrydiau gwaith, a chan y Glasbrint VAWDASV yn gyffredinol, felly ni fyddwn am adolygu’r dangosyddion cyn datblygu’r polisi. Fodd bynnag, mae’r Pwyllgor wedi codi materion pwysig ynghylch y gallu i graffu ar ein cynnydd. Gyda hynny mewn golwg, credaf y dylid cyhoeddi data mwy tryloyw yn erbyn y dangosyddion presennol yn ein Hadroddiad Blynyddol nesaf ac rwyf yn hapus i ymrwymo i wneud hynny ar gyfer 2023/2024. Cyn hynny, byddwn yn cymryd camau cynnar i sicrhau bod y ffrydiau gwaith yn fwy tryloyw ac i ddarparu diweddariadau ar gynnydd. Bydd hyn yn cynnwys cyhoeddi cofnodion cryno o gyfarfodydd glasbrint ar wefan Llywodraeth Cymru a chyhoeddi cylchlythyr i randdeiliaid.

<u>Cynlluniau ffrwd waith glasbrint</u>

Mae’r Glasbrint wedi cynnwys yr ystod lawn o wasanaethau sector cyhoeddus ac arbenigol wrth gyflawni ein strategaeth i fynd i’r afael â thrais yn erbyn menywod a merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae’r Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol yn cael ei gadeirio ar y cyd gennyf fi, fel y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a’r Prif Chwip, a Dafydd Llywelyn, Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys. Mae'r aelodaeth yn cynnwys cynrychiolwyr yr Heddlu yn ogystal ag aelodau o asiantaethau arbenigol megis Llwybrau Newydd, Cymorth i Ferched Cymru a Cymru Ddiogelach; cyrff statudol fel Gwasanaeth Erlyn y Goron a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF; sefydliadau eraill fel Cyngor Ffoaduriaid Cymru, TUC ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ogystal â'r Comisiynydd Plant, y Comisiynydd Pobl Hŷn a'r Comisiynydd Cam-drin Domestig.

O fewn y dull Glasbrint, mae'r 6 ffrwd waith bellach yn cwblhau eu cynlluniau cyflawni ac yn eu gweithredu. Rwyf yn atodi tabl (Atodiad A) sy'n nodi'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt a'r diweddariadau. Bydd llawer o'r wybodaeth hon hefyd yn cael ei chynnwys yn y diweddariad blynyddol ar lasbrint y bwriadaf ei gyhoeddi cyn diwedd y mis hwn.

<u>Rhaglenni Cyflawnwyr</u>

Mae gwybodaeth fanwl am y ffrwd waith Mynd i’r Afael â Chyflawni wedi’i chynnwys yn Atodiad A. Mae’r grŵp hwn yn gweithio i ddatblygu safle llawer cryfach o ran atal VAWDASV, yn unol â dull ein Strategaeth Genedlaethol. Rwyf yn cydnabod ac yn deall yr heriau o ran darparu rhaglenni cyflawnwyr gwirfoddol yr ydych wedi’u nodi ledled Cymru. Drwy’r ffrwd waith hon rydym yn ceisio mapio’r holl wasanaethau perthnasol yng Nghymru, gan gynnwys eu partneriaethau atgyfeirio a’u ffrydiau ariannu.

Bydd hyn yn cwmpasu gwasanaethau ac ymyriadau o'r gymuned i'r ddalfa; ymyrraeth wirfoddol a statudol sy'n cefnogi'r gwaith o leihau risg; addysg a chodi ymwybyddiaeth. Trwy'r gwaith hwn, byddwn yn parhau i adeiladu sylfaen dystiolaeth o ddarpariaeth gwasanaeth, yr hyn sy'n gweithio a sut i flaenoriaethu cyllid orau i gefnogi newid ymddygiad. Rydym yn gweithio'n agos gyda'n rhanbarthau i ddatblygu dyfarniadau grant, yn seiliedig ar eu hanghenion datganedig a strategaethau lleol. Ochr yn ochr â’n cyllid grant refeniw, rydym hefyd yn sicrhau bod cyfalaf ar gael, drwy broses fidio ranbarthol a gefnogir gan fy swyddogion.

Mae’n bwysig cydnabod ein man cychwyn anghyson, o ran cwmpas daearyddol a’r ystod o wasanaethau a ddarperir, a’r cyfyngiadau cyllidebol o ran ceisio gwella ein gallu i fynd i’r afael â chyflawni ac atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Datblygwyd y Strategaeth Genedlaethol yn arbennig i wella’r ffocws ar atal tra’n diogelu’r

cymorth presennol i oroeswyr. Bydd buddsoddi mewn gweithgareddau ymyrraeth gynnar ac atal yn ein cymunedau yn gofyn am sylfaen dystiolaeth sylweddol i lywio ein strategaeth gomisiynu a'n gwaith o gynllunio'r gyllideb ar gyfer y dyfodol. Mae yna bethau yr ydym yn eu gwneud yn y maes hwn eisoes, megis ein gwaith gyda phob heddlu yng Nghymru drwy sicrhau bod cyllid ar gael ar gyfer gweithredu [CARA](), sef ymyrraeth gynnar yn y gymuned ar gyfer y troseddwyr tro cyntaf hynny, fodd bynnag, rwyf yn awyddus i wneud mwy.

Yn adroddiad y Comisiynydd Cam-drin Domestig [Clytwaith o Ddarpariaeth]() (2022) - ar gyfer Cymru a Lloegr, dywedodd 51% o'r goroeswyr eu bod eisiau "Cymorth i'r person oedd yn fy ngham-drin i newid ei ymddygiad". Yn siomedig, dim ond 7% o'r ymatebwyr hyn oedd yn gallu dod o hyd i gymorth o'r fath. Mae hwn yn amlwg yn angen heb ei ddiwallu nid yn unig o ran darparu cyfleoedd ar gyfer newid a lleihau risg ond hefyd ar gyfer diwallu anghenion diogelwch dioddefwyr a goroeswyr.

## Asesiad Effaith

Roedd gan y Strategaeth Genedlaethol Asesiad Effaith Integredig fel rhan o'i datblygiad. Roedd hyn yn dangos cost enfawr VAWDSV i unigolion a chymdeithas. Bydd effeithiolrwydd ein strategaeth yn cael ei brofi ar lefelau amrywiol. Bydd yn cynnwys; monitro a gwerthuso ar lefel prosiect; yr asesiad effaith sy'n ofynnol gan ffrydiau gwaith ar gyfer pob un o'r argymhellion polisi a wnânt i'r Bwrdd Partneriaeth ac adolygu'r Strategaeth gyfan a fydd yn digwydd fel rhan o'r ddyletswydd statudol i adolygu fel sy'n ddisgwyliedig gan bob gweinyddiaeth newydd.

Bydd creu'r 'Ystorfa Ganolog o Wybodaeth' sy'n cael ei sefydlu fel un o ymrwymiadau'r Strategaeth Genedlaethol yn cyfrannu'n fawr at y gwaith o ddeall a gwerthuso effaith 'dull iechyd y cyhoedd'. Bydd yr Ystorfa Ganolog yn dod â dulliau rheoli gwybodaeth a chapasiti ymchwil y bartneriaeth gyfan ynghyd i sicrhau bod gennym 'un fersiwn o'r gwirionedd'.

Ar y lefel strategol byddwn yn monitro cynnydd yn erbyn y set bresennol (a diwygiedig) o Ddangosyddion Cenedlaethol.

## Data Cydraddoldeb

Mae'r Is-adran Tystiolaeth a Chefnogaeth Cydraddoldeb, Tlodi a Phlant yn darparu cymorth dadansoddol ar gyfer datblygu, monitro a gwerthuso polisi VAWDASV. Mae hyn yn cynnwys archwilio cynlluniau ar gyfer ystorfa dystiolaeth, cefnogi'r Glasbrint a diwallu anghenion tystiolaeth ehangach. Er enghraifft, nodi arferion gorau byd-eang ar gyfer mynd i'r afael ag aflonyddu ar y stryd ac yn y gweithle; ac adolygu llwybrau cymorth i ddioddefwyr anabl VAWDASV.  Mae tîm Polisi VAWDASV a'r tîm Tystiolaeth a Chymorth yn ceisio cryfhau'r ffocws ar anghenion tystiolaeth VAWDASV, gyda'r bwriad o'u hymwreiddio yn y cynllun tystiolaeth ar gyfer 2024-25.

Yn unol â'm tystiolaeth i'r Pwyllgor, rydym yn ymwybodol iawn o effaith VAWDASV ar sail groestoriadol, yn ogystal â'r effaith anghymesur ar bobl anabl, pobl hŷn, lleiafrifoedd ethnig a menywod mudol, ymhlith grwpiau eraill. Fel rhan o'r glasbrint, bydd pob ffrwd waith yn ystyried hyn yn ei hanfod er mwyn deall yn llawn anghenion pawb y gall VAWDASV effeithio arnynt.  Mae hyn yn ei gwneud yn bwysicach fyth bod y gwaith yn cael ei ategu drwyddo draw gan ddata a thystiolaeth gadarn am gydraddoldeb.

Mae SafeLives wedi cyhoeddi nifer o adroddiadau [sbotolau]() ynghylch materion croestoriadol yn ymwneud â VAWDASV. Byddwn yn parhau i sicrhau bod ein camau gweithredu yn cael eu llywio gan ddealltwriaeth o effaith VAWDASV ar gydraddoldeb.

## Gofyn a Gweithredu

Mae 'Gofyn a Gweithredu' yn rhaglen genedlaethol ac mae'n gwbl weithredol ar draws holl ranbarthau Cymru. Ar ddiwedd mis Mawrth 2023, roedd 37,737 o weithwyr wedi cael eu hyfforddi i Ofyn a Gweithredu. Cynhaliwyd gwerthusiad o 'effeithiolrwydd Gofyn a

Gweithredu' a chyhoeddwyd adroddiad llawn ym mis Ionawr 2022. Ymhlith y cyfranogwyr a gymerodd ran yn yr ymchwil roedd hyfforddwyr Gofyn a Gweithredu, dysgwyr, cydlynwyr rhanbarthol a chydweithwyr o Cymorth i Ferched Cymru a Llywodraeth Cymru. Nid oes unrhyw werthusiad ffurfiol pellach o'r math hwn wedi'i gynllunio ar hyn o bryd.

Canfu'r gwerthusiad fod Gofyn a Gweithredu yn cael ei gweld fel un bwysig a gwerthfawr sy'n cael effaith ledled Cymru ar gyfer y rhai sy'n cymryd rhan, yn unigol ac ar lefel sefydliadol/sector.

Mae'r adroddiad yn cynnwys pymtheg o argymhellion, yn ymwneud â chyflenwi a rhoi ar waith fesul cam, cynnwys a deunyddiau hyfforddi'r cwrs, a gwerthuso. Mae swyddogion eisoes wedi dechrau gweithredu nifer o newidiadau i ddulliau cyflwyno a pholisi gan ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol.

Dyfarnwyd contract tair blynedd i Gymorth i Ferched Cymru ym mis Tachwedd 2022 i gefnogi a pharhau â'r gwaith o gyflenwi Rhaglen Hyfforddiant Gofyn a Gweithredu.

Ymdrinnir â datblygiad pellach y rhaglen Gofyn a Gweithredu trwy ffrydiau gwaith y Glasbrint i sicrhau bod y rhaglen yn parhau i fod yn addas i'r diben. Bydd cyfarfod nesaf y ffrwd waith Dull System Gyfan yn trafod newid ymddygiad ymhlith gweithwyr proffesiynol gyda'r bwriad o sicrhau bod gennym yr offer cywir ar waith.

Argymhelliad 13 Adroddiad Menywod Mudol

Derbyniwyd argymhelliad 13 o ymchwiliad y Pwyllgor i drais ar sail rhywedd ac anghenion menywod mudol mewn egwyddor, gyda'r cafeat na all Llywodraeth Cymru sefydlu mur gwarchod data yn annibynnol o ystyried yr asiantaethau sydd heb eu datganoli y cyfeiriodd hyn atynt, gan gynnwys prosesau fisas a mewnfudo yr Heddlu a Llywodraeth y DU. Mae fy swyddogion wrthi'n gweithio ar ddiweddariad ar gynnydd yn erbyn yr holl argymhellion, gan gynnwys argymhelliad 13. Fodd bynnag, rwyf yn hapus i gynnig diweddariad interim ar yr argymhelliad penodol hwn yma.

Er bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn glir na allwn ni ein hunain sefydlu mur gwarchod o fewn Plismona ac asiantaethau eraill a gadwyd yn ôl, mae Glasbrint VAWDASV yn rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid sydd wedi'u datganoli a phartneriaid sydd heb eu datganoli mewn ffordd gydgysylltiedig. Yn ein hymateb i'r ymchwiliad, rydym wedi ymrwymo i ddeall y materion a'r rhwystrau sy'n ymwneud â rhannu data ymhellach, er mwyn gwneud newid gwirioneddol i gynyddu hunanhyder dioddefwyr a goroeswyr i geisio cymorth hanfodol, a allai achub bywyd mewn llawer o achosion. Byddwn yn gwneud y gwaith hwn drwy ffrwd waith y dull cynaliadwy, system gyfan, mewn partneriaeth ag asiantaethau sydd heb eu datganoli, gan geisio newidiadau gwirfoddol i ymarfer.

Cyllid

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu partneriaethau rhanbarthol yn ogystal ag ariannu gwasanaethau arbenigol yn uniongyrchol i ddarparu cymorth amhrisiadwy sy'n achub bywyd i holl ddioddefwyr VAWDASV.  Mae hyn yn cynnwys ymyrraeth gynnar, cymorth ataliol ac addysgol, rhaglenni ymyrraeth i gyflawnwyr, Eiriolwyr Trais Domestig Annibynnol ar gyfer dioddefwyr risg uchel yn ogystal ag ymyriadau adferiad therapiwtig i roi cymorth parhaus i'r rhai y mae VAWDASV yn effeithio arnynt.

Mae rhestr o'r sefydliadau sy'n derbyn cyllid cyfalaf neu refeniw VAWDASV gan Lywodraeth Cymru i'w gweld yn Atodiad B.

Rhaglen Paid Cadw'n Dawel

Mae contract ariannu 3 blynedd, gwerth £230,000 ar waith i ddatblygu a chyflwyno menter beilot i gynnig hyfforddiant ymyriadau gan wylwyr i Gymru gyfan a fydd yn cael ei chyflwyno i ddinasyddion Cymru. Bydd y fenter hon yn cynnwys cynnig hyfforddiant i hyrwyddo rhaglen ymyrraeth gwylwyr rhag-gymdeithasol a gwybodus i'r cyhoedd a fydd yn rhedeg ochr yn ochr â'n hymgyrchoedd Cyfathrebu VAWDASV.  Y nod yw gwneud newidiadau gwirioneddol a pharhaol mewn agweddau cymdeithasol tuag at VAWDASV.

Mae contract Menter Genedlaethol Ymyriadau gan Wylwyr wedi'i ddyfarnu i Kindling Transformative Interventions ar y cyd â PLAN a Beyond Equality. Mae Kindling yn gwmni deillio o Brifysgol Caerwysg wedi'i gyd-gyfarwyddo gan Dr Rachel Fenton a Dr Nathan Eisenstadt a bydd yn gyfrifol am ddatblygu'r rhaglen beilot hon.

Bydd y rhaglen beilot yn rhedeg tan fis Mawrth 2026. Mae eu model cyflawni yn rhagweld y bydd hyd at 400 o bobl y flwyddyn yn derbyn hyfforddiant - oddeutu 1,200 i gyd. Mae'r rhaglen yn y cam dylunio ar hyn o bryd a disgwylir i'r hyfforddiant gael ei gyflwyno o ddechrau 2024. Bydd gwerthusiad llawn yn cael ei gynnal a fydd yn cynnig argymhellion ar ôl ei gwblhau.

Gwyddom fod galw am y math hwn o hyfforddiant. Cyhoeddwyd arolwg poblogaeth Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus yn ddiweddar a oedd yn canolbwyntio ar 'dystiolaethu i drais'. Y prif ffigur o'r arolwg yw y byddai 61% o'r ymatebwyr yn 'debygol' (38%) neu'n 'debygol iawn' (23%) o fanteisio ar y cynnig o hyfforddiant gwylwyr pe bai ar gael.

Mae'r Uned Atal Trais hefyd wedi cyhoeddi adroddiad yn ddiweddar ar Atal Trais Rhywiol yn Economi'r Nos: Annog Dynion i fod yn Wylwyr Gweithredol. Mae'r adroddiad hwn yn werthusiad o Gam Dau o ymgyrch #DiogelDweud.

## Dyletswydd Trais Difrifol

Fel y gwnaethoch ofyn, atodaf lythyr a anfonais at y Gweinidog Plismona, Chris Philp AS ar 22 Tachwedd 2022, ynghylch y Ddyletswydd Trais Difrifol. (Atodiad C)

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi dull polisi'r Ddyletswydd Trais Difrifol sef bod gwasanaethau'n cydweithio i atal a lleihau trais difrifol. Mae hyn yn adeiladu ar y dull presennol o gydweithio ar ddiogelwch cymunedol sydd eisoes ar waith yng Nghymru. Rydym wedi gweithio gyda'r Swyddfa Gartref a phartneriaid Cymru ar y Canllawiau statudol, sy'n cynnwys pennod benodol i Gymru i roi darlun o gefndir deddfwriaethol a pholisi penodol Cymru yn ogystal â'r cytundebau partneriaeth sydd ar waith ledled Cymru.

Mae swyddogion o Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio ar weithredu'r Ddyletswydd Trais Difrifol, gan gynnwys drwy'r Grŵp Goruchwylio Cenedlaethol (dan gadeiryddiaeth y Swyddfa Gartref). Mae'r grŵp hwn yn monitro cydymffurfedd â'r Ddyletswydd, yn sbarduno darpariaeth draws-sector ac yn olrhain sut y caiff y rhaglen ei chyflawni. Mae swyddogion yn Is-adran Diogelwch Cymunedol Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod cyd-destun Cymru yn cael ei ystyried drwy waith y Grŵp Goruchwylio, a bod materion perthnasol yn cael eu codi gyda rhanddeiliaid Cymru.

Mae awdurdodau penodol yng Nghymru hefyd yn cael eu cefnogi i roi'r ddyletswydd ar waith drwy:

- Yr Uned Atal Trais sydd wedi llunio canllawiau asesu anghenion strategol ar gyfer Cymru; hyb data trais aml-asiantaeth ar drais; a fframwaith strategol atal trais ieuenctid;
- Rhwydwaith Cymunedau Diogelach Cymru;
- Crest, cyflenwr a gomisiynwyd gan y Swyddfa Gartref, sy'n darparu cymorth wedi'i deilwra i roi'r Ddyletswydd ar waith.

## Adnodd Llywodraeth Cymru

Er mwyn deall ein hymrwymiad i bolisi VAWDASV o ran adnoddau, mae'n bwysig gweld y mater yn ei gyfanrwydd a deall y strwythur a'r gefnogaeth a gynigir i'r glasbrint ei hun a'r Bartneriaeth Genedlaethol, yn ogystal â'n holl waith VAWDASV ehangach, wrth iddo gael ei gynnwys fwyfwy o dan ymbarél y glasbrint.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo staff a ariennir drwy Gostau Rhedeg Dirprwyedig a thrwy gyllid rhaglen i'r glasbrint a byddaf yn cyhoeddi trosolwg o'r glasbrint yn fuan (Atodiad D) sy'n nodi'r cyfraniad cyfunol at wneud i'r glasbrint weithio. Fel y mae'r trosolwg yn ei ddangos, mae rhan sylweddol o dîm y glasbrint yn dod o fewn Heddlu De Cymru ac yn cael ei chyflogi ganddo, sy'n brawf hanfodol o'n hymrwymiad i weithio mewn partneriaeth. Mae staff y glasbrint, boed yn Llywodraeth Cymru neu Heddlu De Cymru, yn cydweithio'n agos i gyflawni nod y Strategaeth Genedlaethol a'r glasbrint.

Yn ogystal, mae dros 40 o sefydliadau yn ymwneud â gwaith y Glasbrint VAWDASV gan gynnwys cyrff sector cyhoeddus sydd wedi'u datganoli a rhai sydd heb eu datganoli, gwasanaethau iechyd, y sector arbenigol, TUC Cymru, CLlLC i enwi ambell un.

<u>Diwylliant Sefydliadol</u>

Fel yr awgrymwch, mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn esiampl. Fel sefydliad, mae gennym bolisi dim goddefgarwch mewn perthynas â gwahaniaethu a thrais o unrhyw fath. Mae ein polisi pwrpasol 'Cam-drin Domestig, Trais yn Erbyn Menywod, a Thrais Rhywiol' yn nodi ein rôl fel cyflogwr wrth gefnogi staff a all fod yn profi cam-drin domestig a thrais, gan gynnwys diogelu unigolion yn y gweithle a'n hymrwymiad i gymryd camau yn erbyn cyflawnwyr. Mae ein Rhaglen Cymorth i Weithwyr yn darparu cyngor a chymorth proffesiynol ac annibynnol, gan gynnwys gwasanaethau cwnsela am ddim, i unrhyw un y mae cam-drin domestig neu drais yn effeithio arnynt. Mae ein hyb dysgu ar-lein yn cynnwys adnodd e-ddysgu sydd â'r nod o helpu staff i adnabod arwyddion trais a chamdriniaeth, yn ogystal â'r effaith y gall ei chael ar unigolion, teuluoedd a chydweithwyr.

Mae Llywodraeth Cymru wedi'i hachredu'n sefydliad Rhuban Gwyn ac mae ein Hysgrifennydd Parhaol, Andrew Goodall, a'n Prif Swyddog Gweithredu, Tim Moss, yn Llysgenhadon Rhuban Gwyn balch, gan arwain grŵp brwdfrydig ac ymroddedig o lysgenhadon a hyrwyddwyr wrth godi ymwybyddiaeth ar draws y sefydliad ac ategu negeseuon yr ymgyrch. Ochr yn ochr â hyn, mae gennym rwydwaith ffyniannus o fenywod a chymuned o gynghreiriaid, sy'n cefnogi ac yn herio'r sefydliad i sicrhau bod cydraddoldeb rhywiol wedi'i wreiddio yn ein diwylliant, ein polisïau a'n prosesau.

Gobeithiaf y bydd yr wybodaeth hon o gymorth i'r Pwyllgor yn eich ymchwiliad. Mae hwn yn waith pwysig ac edrychaf ymlaen at dderbyn cyfraniad y Pwyllgor i'n cynnydd ar ffurf eich adroddiad a'i argymhellion.

Cofion

**Jane Hutt AS/MS**
**Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

| | Cam Gweithredu Lefel Uchel | Diweddariad |
|---|---|---|
| Cyf. Cam Gweithredu Lefel Uchel | **Aflonyddu ar sail rhyw mewn mannau cyhoeddus** | |
| 1 | Cryfhau a gwella'r sylfaen dystiolaeth o ran atal ac ymateb i aflonyddu rhywiol cyhoeddus a mathau eraill o aflonyddu ar sail rhyw mewn mannau cyhoeddus, a diogelwch menywod a merched mewn mannau cyhoeddus, er mwyn deall graddau'r broblem, yr hyn sy'n ei achosi ac ymyriadau effeithiol. | • Cwblhawyd adolygiad llenyddiaeth gan Dîm Polisi Trais a Cham-drin Llywodraeth Cymru<br>• Mae adolygiad cyflym o'r dystiolaeth bresennol yn cael ei gynnal gan Ganolfan ACE Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>• Mae ymchwil ar y manosffer, ei effaith a'i ystyriaethau, yn cael ei wneud gan Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru<br>• Mae'r Uned Atal Trais wedi rhannu eu hadroddiad diweddar 'Casglu Mewnwelediadau Ymddygiadol ar gyfer Atal Aflonyddu Rhywiol' yn y Glasbrint. Cynhaliwyd yr ymchwil hon i ddeall yn well beth sy'n rhwystro a beth sy'n hwyluso dynion o ran ymyrryd pan fyddant yn dyst i aflonyddu rhywiol neu ymddygiad rhywiol problemus, ac mae'n canolbwyntio ar ddynion 18-54 oed sy'n byw neu'n cymdeithasu yn ne Cymru.<br>• Mae Cowshed Media wedi cytuno i rannu gwybodaeth am y sail dystiolaeth ar gyfer cysyniad a dull gweithredu ymgyrch IAWN Llywodraeth Cymru, yr hyn a ddysgwyd gan grwpiau ffocws ac arolwg yr ymgyrch, a rhannu gwybodaeth yn y dyfodol o arolygon a gwerthusiadau ymgyrchu.<br>• Mae Plan UK yn ariannu prosiectau profi a dysgu gyda sefydliadau sy'n darparu ymyriadau/gweithgareddau gyda bechgyn a dynion ifanc a allai helpu i leihau Trais a Cham-drin. Mae Plan UK wedi comisiynu'r Uned Atal Trais i gynnal adolygiad llenyddiaeth ar Beth sy'n Gweithio i Ymgysylltu Dynion a Bechgyn wrth Atal Trais. Mae'r astudiaeth hon hefyd yn cynnwys arolwg mapio a gynhaliwyd yng Nghymru, a grwpiau ffocws gyda'r prosiectau profi a dysgu<br>• Mae Plismona wedi dechrau camau cychwynnol i gasglu gwybodaeth am y ddeddfwriaeth, y pwerau a'r gorchmynion deddfwriaethol a sifil presennol mewn perthynas ag aflonyddu ar sail rhyw ym mhob man cyhoeddus yng Nghymru. |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| 2 | Datblygu dull ataliol ar draws ein systemau o fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol cyhoeddus a mathau eraill o aflonyddu ar sail rhyw mewn mannau cyhoeddus, er mwyn cynyddu diogelwch menywod a merched, | • Mae grŵp gorchwyl a gorffen wedi'i sefydlu i gwblhau ymarfer mapio; mapio'r mentrau cenedlaethol, rhanbarthol, lleol, cymunedol, y partneriaethau, y cynlluniau peilot a'r cynlluniau amlwg cyfredol ledled Cymru a'r DU sy'n cefnogi atal, ac ymateb priodol i, aflonyddu ar sail rhyw mewn mannau cyhoeddus, i nodi arferion gorau a bylchau yn y ddarpariaeth<br>• Sefydlwyd cysylltiadau newydd gyda rhanddeiliaid allweddol, megis Trafnidiaeth Cymru a Pholisi Chwaraeon Llywodraeth Cymru, Chwaraeon Cymru ac Undeb Rygbi Cymru, er mwyn nodi ac ymateb i gyfleoedd newydd i gydlynu a datblygu camau gweithredu ledled Cymru |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | a'u hymwybyddiaeth o ddiogelwch. | • Trafodaethau parhaus gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i ddarparu canllawiau wedi'u diweddaru ar gyfer Prifysgolion Cymru, a fydd yn cefnogi creu amgylcheddau addysg uwch diogel, cynhwysol a chefnogol a sicrhau bod sefydliadau'n gweithredu mesurau effeithiol i atal ac ymateb i aflonyddu ar sail rhyw mewn mannau cyhoeddus a mathau eraill o drais a cham-drin |
| 3 | Nodi, datblygu a gweithredu ymyriadau effeithiol sy'n galluogi pawb mewn cymdeithas i herio agweddau, credoau ac ymddygiadau sy'n dirmygu menywod, er mwyn newid y diwylliant o ddirmygu menywod ac aflonyddu sy'n bwydo camdriniaeth. | • Mae cysylltiad wedi'i sefydlu gyda Kindling Interventions er mwyn manteisio ar y dysgu o'u rhaglen ymyrraeth gwylwyr a sefydlu cyswllt i ddysgu o'u gwerthusiad yn y dyfodol o Fenter Ymyrraeth Genedlaethol Gwylwyr.<br>• Bydd gwersi yn cael eu dysgu o ganfyddiadau Plan UK o brosiectau profi a dysgu gyda sefydliadau sy'n darparu ymyriadau/gweithgareddau i fechgyn a dynion ifanc a allai helpu i leihau trais a cham-drin<br>• Mae gwaith mapio cychwynnol mentrau eraill ac ymyriadau cysylltiedig a nodwyd drwy 'yr hyn rydyn ni'n gwybod sy'n gweithio' sy'n dangos addewid wedi dechrau a bydd yn cael ei ddatblygu |
| 4 | Adolygu a gwneud argymhellion ar gyfer dull teg o ddefnyddio ymyriadau a mentrau ym mhob asiantaeth a chymuned | • Mae Heddlu Gogledd Cymru yn arwain ar gamau gweithredu ar draws y pedwar Heddlu yng Nghymru i archwilio'r defnydd gorau o ddadansoddiadau ar lefel ardaloedd cynnyrch ehangach haen is i gydnabod patrymau mewn troseddau a gofnodwyd, digwyddiadau ac ymddygiad problemus arall mewn perthynas ag aflonyddu ar sail rhyw mewn mannau cyhoeddus.<br>• |
| | **Aflonyddu yn y gweithle** | |
| 1 | Sefydlu a chynnal sylfaen dystiolaeth | • Mae Tîm Polisi Trais a Cham-drin Llywodraeth Cymru wedi dechrau adolygiad cyflym o'r ffynonellau presennol er mwyn deall yn well, achosion |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | gadarn, gan gynnwys cofnodi profiadau bywyd o aflonyddu yn y gweithle, er mwyn deall yn well raddfa aflonyddu yn y gweithle a'r camau sy'n helpu i'w atal. | ac effaith aflonyddu ar sail rhyw yn y gweithle. Bydd hyn yn cael ei gyflawni mewn pedwar cam. Mae cam un, adolygiad llenyddiaeth, wedi'i gwblhau. Bydd grŵp gorchwyl a gorffen yn cael ei gynnal gyda'r diben o sefydlu'r camau nesaf ar gyfer camau gweithredu ar sail ymchwil<br>• |
| 2 | Datblygu dull ar draws ein systemau o gefnogi atal ac ymateb yn effeithiol i aflonyddu yn y gweithle ar fenywod a merched, gan fynd i'r afael ag aflonyddu ym mhob gweithle ledled Cymru. | • Cynhaliwyd digwyddiad peilot i rannu arferion er mwyn ennyn diddordeb arweinwyr yng Nghymru, codi ymwybyddiaeth o Drais a Cham-drin ac aflonyddu yn y gweithle a rhannu arferion gorau. Cynhaliwyd y digwyddiad hwn yn rhithiol ac fe'i mynychwyd gan uwch arweinwyr o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.<br>• Mae'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, Jane Hutt, AS, wedi eiriol dros ddiwygio Deddf Cydraddoldeb 2010 i gynnwys darpariaeth mewn perthynas â diogelu gweithwyr a dyletswyddau cyflogwyr drwy'r Bil Diogelu Gweithwyr.<br>• |
| 3 | Defnyddio a gwella'r adnoddau a'r cyfryngau sydd gennym eisoes i godi ymwybyddiaeth, hyrwyddo arferion rhagorol a chefnogi newid gweithredol i ddileu aflonyddu yn y gweithle ar fenywod a merched, ac i wella'r ymateb yn y gweithle i | • Sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen gyda'r diben o sefydlu'r camau cychwynnol i ddechrau ymarfer mapio ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, i gasglu gwybodaeth am ba arferion da ac offer sydd eisoes yn bodoli, neu sy'n cael eu datblygu, ar lefel genedlaethol, yn rhyngwladol ac yn lleol mewn perthynas ag atal ac ymateb i aflonyddu ar sail rhyw a mathau eraill o drais a cham-drin yn y gweithle Cynhaliwyd trafodaethau cychwynnol gyda Beyond Equality, sefydliad elusennol sy'n arbenigo mewn gweithio gyda dynion a bechgyn, gan gynnwys yn y gweithle, ynghylch cydraddoldeb rhyw a gwrywdod iach er mwyn creu newid diwylliannol cadarnhaol ac atal Trais a Cham-drin. Mae trafodaethau cynnar eisoes wedi arwain at randdeiliaid yn cynnal gweithdai peilot drwy Beyond Equality |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | bob math o drais yn erbyn menywod a merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol | • |
| 4 | Herio a chefnogi pob sefydliad ledled Cymru i fynd y tu hwnt i'w dyletswyddau cyfreithiol a gorfodol eraill a mabwysiadu safonau ymddygiad enghreifftiol yn y gweithle. | Bydd y cam hwn yn cael ei ddatblygu'n llawn unwaith y bydd y ffrwd waith mewn sefyllfa i wneud argymhellion<br>• Fel cam cychwynnol, mae ymholiadau'n cael eu gwneud i'r modd y gall Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 fod yn berthnasol i godau ymddygiad yn y sector cyhoeddus. |
| | **Mynd i'r afael â Chyflawni Trais** | |
| 1 | Cryfhau a gwella'r sylfeini tystiolaeth presennol a'r dadansoddiadau o anghenion o ran cyflawni trais yn erbyn menywod, cam-drin | • Mae'r ffrwd waith wedi ehangu ei haelodaeth i gynnwys cynrychiolaeth academaidd a darparwyr arbenigol yn y sector i gefnogi gyda datblygu sylfaen dystiolaeth.<br>• Gwnaed cynnydd o ran llunio map ymyrraeth Cymru gyfan i'r rhai sy'n cyflawni trais neu gam-drin i gasglu gwybodaeth am ymyriadau statudol a thrydydd sector. Mae'r ffrwd waith wrthi'n cwblhau'r templed ar gyfer yr ymarfer mapio a phenderfynu pa feddalwedd i'w defnyddio i lansio'r arolwg, gyda'r bwriad o fynd yn fyw yn yr hydref. Mae hwn yn ddarn sylweddol o waith sydd wedi cymryd llawer o sylw ac adnoddau'r ffrwd waith. |

DRAFT

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | domestig a thrais rhywiol yng Nghymru. | • Mae'r ffrwd waith yn cynllunio ar gyfer datblygu dangosfwrdd data cyflawniad Cymru gyfan, a fydd yn canolbwyntio i ddechrau ar gasglu ac arddangos data cyfiawnder troseddol.<br>• |
| 2 | Datblygu dull gweithredu ar draws systemau Cymru o fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, sy'n cwmpasu popeth o ymyrraeth ac atal yn gynnar i ymateb y maes cyfiawnder troseddol. | • Mae papur wedi'i ddatblygu sy'n rhoi trosolwg o ddeddfwriaeth, polisïau a chanllawiau perthnasol ar gyfer Trais a Cham-drin a chyflawni trais.<br>• Gwnaed cysylltiadau trawslywodraethol rhwng timau Trais a Cham-drin a Chyfathrebu a rhanddeiliaid allweddol allanol eraill i archwilio cyfleoedd ar gyfer dadansoddi a defnyddio canfyddiadau ymgyrchoedd cyfathrebu sy'n canolbwyntio ar atal wedi'u targedu at ddynion a bechgyn.<br>• Mae'r ffrwd waith yn gweithio gyda ffrwd waith Dull Cynaliadwy ar draws Systemau i gynnwys cwestiynau am ymatebion i gyflawni trais yn yr ymgynghoriad maent yn ei ddatblygu. |
| 3 | Sefydlu eglurder ynghylch cyfrifoldebau'r holl awdurdodau perthnasol o ran atal a mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol o dan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, a chyfrifoldebau gwasanaethau | • Mae arweinwyr polisi'r ffrwd waith a rheolwr cyflawni'r prosiect wedi cyfarfod i ddechrau gwaith pennu cwmpas ar gyfer y cam hwn. |

| | | |
|---|---|---|
| | cyhoeddus eraill nad ydynt wedi'u datganoli. | |
| 4 | Cryfhau mecanweithiau atebolrwydd i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn cyflawni eu cyfrifoldebau i fynd i'r afael ac atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. | • Mae'r ffrwd waith yn cydnabod bod cyd-ddibyniaethau sylfaenol â ffrwd waith Dull Cynaliadwy ar draws Systemau a bydd yn ymgymryd â gwaith ar hyn pan fydd y ddwy ffrwd waith mewn sefyllfa i gydweithio. |
| | **Dull Cynaliadwy ar draws Systemau** | |
| 1 | Adolygu'r arferion presennol i ddeall sut y gweithredir y canllawiau sydd gennym a sut y cyflawnir y cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (2015). | • Cynhaliwyd sesiwn ymgynghori gydag Ymgynghorwyr Rhanbarthol i ofyn eu barn am yr heriau a'r rhwystrau i weithredu'r Ddeddf Trais a Cham-drin yn ogystal â llwyddiannau cyfredol.<br>• Mae fframwaith ymgynghori cenedlaethol ehangach yn cael ei ddatblygu gyda'r bwriad o'i lansio yn yr hydref. Bydd yr ymgynghoriad yn mabwysiadu dull cymysg drwy ddefnyddio arolygon a sesiynau ymgysylltu wedi'u targedu gyda grwpiau rhanddeiliaid allweddol. Mae hwn yn ddarn sylweddol o waith ac mae wedi bod yn flaenoriaeth ganolog i'r ffrwd waith.<br>• Mae aelodaeth y ffrwd waith wedi ehangu i sicrhau bod golwg a dealltwriaeth gynhwysfawr o'r dirwedd bresennol ar gyfer gweithredu canllawiau a darpariaeth bresennol o ran y Ddeddf Trais a Cham-drin.<br>• Mae'r ffrwd waith wedi datblygu perthynas waith gadarnhaol gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ac mae'n archwilio cyfleoedd pellach ar gyfer cydweithredu ar ei raglen waith. |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| 2 | Adolygu ac adnewyddu'r canllawiau presennol ar gyfer datblygu asesiadau o anghenion yn ogystal â blaenoriaethu, cynllunio, dylunio, a monitro gwasanaethau i ddatblygu dull ar draws ein systemau o gomisiynu cynaliadwy. | Mae papur wedi'i ddrafftio sy'n darparu trosolwg a chrynodeb cynhwysfawr o ddeddfwriaeth, polisïau a chanllawiau allweddol ar gyfer dull system gyfan o ymdrin â Thrais a Cham-drin. |
| 3 | Adolygu’r canllawiau presennol ynghylch caffael a grantiau mewn perthynas â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a disgyblaethau cysylltiedig eraill, er mwyn sicrhau tegwch, arloesedd ac ansawdd wrth gynnig gwasanaethau a darpariaeth ledled Cymru. | Bydd yn cael ei ddatblygu unwaith y bydd yr ymgynghoriad cenedlaethol wedi'i gwblhau |
| 4 | Datblygu canllawiau i sicrhau bod strwythurau partneriaeth rhanbarthol | Bydd yn cael ei ddatblygu unwaith y bydd yr ymgynghoriad cenedlaethol wedi'i gwblhau. |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | ar gyfer gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cydlynu â'i gilydd, a bod y berthynas rhwng cynllunio lleol, darparu gwasanaethau a chomisiynu yn glir. | |
| 5 | Datblygu Fframwaith Safonau Cenedlaethol a fydd yn rhoi arweiniad ar y gofynion ar gyfer darparu gwasanaethau da, pennu lefelau gwasanaeth gofynnol, a mynegi disgwyliadau clir ar gyfer partneriaid comisiynu i ymrwymo i'r Safonau hyn. | • Mae'r ffrwd waith wedi cytuno bod angen datblygu diffiniad ar y cyd o'r Fframwaith Safonau Cenedlaethol.<br>• Bydd y Fframwaith Safonau Cenedlaethol yn cael ei lywio, yn rhannol, gan ymatebion o'r ymgynghoriad a phum ffrwd waith arall y Glasbrint Trais a Cham-drin. |
| | **Anghenion Plant a Phobl Ifanc** | |
| 1 | Cryfhau, gwella, a nodi bylchau mewn sylfeini tystiolaeth presennol a'r dadansoddiadau o anghenion y plant a'r | • Mae Cymorth i Ferched Cymru wedi'u comisiynu i ymgymryd â dau ddarn o waith a fydd yn llywio cwmpas a chyfeiriad y ffrwd waith yn y dyfodol. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys adolygiad cyflym o'r dystiolaeth bresennol, a mapio'r gwasanaethau sydd ar gael yng Nghymru. Bydd y darn canlynol o waith yn cynnwys llais plant a phobl ifanc yn y ffrwd waith. |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | bobl ifanc sy'n cael eu heffeithio gan gam-drin domestig a thrais rhywiol. | • Casglwyd data ar Ymgyrch Encompass ar draws pedair ardal yr Heddlu. Byddwn yn defnyddio'r data hwn i ddeall y profiadau a'r cymorth a gynigir i blant a phobl ifanc drwy'r broses, a byddwn yn ystyried yr heriau sy'n gysylltiedig ag Ymgyrch Encompass. Bydd canlyniadau'r cam gweithredu hwn yn cefnogi dull systemau cyfan ledled Cymru.<br>• |
| 2 | Sefydlu eglurder ynghylch cyfrifoldebau'r holl awdurdodau perthnasol o dan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, a gwasanaethau cyhoeddus eraill nad ydynt wedi'u datganoli, i adnabod cam-drin domestig a thrais rhywiol a brofir gan blant a phobl ifanc, ymateb iddo a'i leihau. | • Mae cysylltiadau trawslywodraethol wedi'u sefydlu gydag Addysg a Diogelu.<br>• Mae cyd-ddibyniaethau rhwng y Cynllun Aflonyddu Rhywiol gan Gymheiriaid yn y broses o gael eu sefydlu.<br>• Dyrannwyd camau gweithredu unigol fel sy'n briodol i gydweithwyr yn Llywodraeth Cymru ac mae'r ffrwd waith yn anelu at ymgysylltu â'r cydweithwyr Iechyd perthnasol.<br>• |
| 3 | Datblygu dull ar draws systemau Cymru o ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc sy’n cael eu heffeithio gan gam-drin domestig a thrais rhywiol, o wasanaethau | • Mae gwaith wedi dechrau ar ddeall proses ac effaith Ymgyrch Encompass ledled Cymru drwy ddefnyddio data atgyfeirio. Bydd hyn yn cael ei ymestyn i nodi cyfleoedd hyfforddi ac uwchsgilio i ddarparwyr addysg. Bydd gwybodaeth a gwersi a ddysgir yn bwydo i mewn i ffrwd waith Dull Cynaliadwy ar draws Systemau.<br>• |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar i wasanaethau oedolion. | |
| 4 | Cryfhau mecanweithiau atebolrwydd i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn diwallu anghenion plant a phobl ifanc sy'n cael eu heffeithio gan gam-drin domestig a thrais rhywiol, gan gwmpasu ymatebion, prosesau archwilio, arolygu, a monitro grantiau. | • Cyfrannwyd mewnbwn ar dirwedd leol, arferion da a materion eraill gan yr Ymgynghorwyr Rhanbarthol.<br>• Mae Pecyn Offer Addysgol Trais a Cham-drin i'w ddiweddaru. |
| | **Anghenion Pobl Hŷn** | |
| 1 | Cryfhau a gwella'r sylfeini tystiolaeth presennol a nodi'r bylchau er mwyn gwella'r wybodaeth am gam-drin pobl hŷn a'r ddealltwriaeth ohono, ynghyd â'r | • Mae aelodau wedi dechrau edrych ar y mecanweithiau presennol yn eu sefydliadau i gynnwys llais pobl hŷn i lunio a rhoi cyfeiriad i'n gwaith.<br>• Mae aelodau wedi amlygu darnau presennol o ymchwil a gwaith i nodi bylchau mewn gwybodaeth.<br>• Nodwyd data sy'n ymwneud â phobl hŷn sy'n rhoi cipolwg ar bobl hŷn cyfredol mewn gwasanaethau trais rhywiol (gan gynnwys oedran ar y pryd y digwyddodd y cam-drin, oedran wrth ddatgelu, rhyw, ethnigrwydd, lleoliad daearyddol). Mae'r data hwn yn chwalu rhai mythau ynghylch pobl hŷn a thrais rhywiol, ac mae'n dangos yn glir bod dioddefwyr trais rhywiol yn aml yn aros degawdau cyn datgelu. |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | gwasanaethau sydd ar gael iddynt. | • |
| 2 | Datblygu dull gweithredu ar draws systemau Cymru sy'n sicrhau eglurder a chydlyniant rhwng gwasanaethau diogelu a gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. | • Mae cysylltiadau trawslywodraethol wedi'u sefydlu gyda Diogelu a Thîm Trais a Cham-drin, yn ogystal â'r cyd-gadeirydd Philip Mulraney.<br>• Mae'r ffrwd waith wedi cysylltu â Chynllun Gweithredu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gam-drin pobl hŷn.<br>• Cyfraniad a chydweithio gyda'r Ymgynghorwyr Rhanbarthol Trais a Cham-drin ynghylch y dirwedd a materion lleol.<br>• Mae mapio cynhwysfawr o Fyrddau Cenedlaethol a Rhanbarthol yng Nghymru sy'n ymwneud â phobl hŷn wedi'i gwblhau gyda'r bwriad o sicrhau bod cyd-dibyniaethau'n cael eu hamlygu'n glir<br>• |
| 3 | Cynyddu'r gwasanaethau sy'n ystyriol o drawma sydd ar gael i bobl hŷn, yn oroeswyr ac yn rhai sy'n cam-drin eraill, a'u gwneud yn fwy addas, gan gydnabod eu hanghenion amrywiol yn ddigonol. | • Mae gwaith mapio cynhwysfawr o wasanaethau sydd ar gael i bobl hŷn ar y gweill. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am wasanaethau goroeswr a chyflawnwyr ledled Cymru, ac a yw'r gwasanaeth yn benodol i drais a cham-drin a phobl hŷn. Mae'r camau nesaf ar gyfer y gwaith hwn wedi'u sefydlu gan gynnwys ymgysylltu â gwasanaethau wedi'u mapio a defnyddwyr gwasanaethau.<br>• Sefydlwyd cyswllt trawslywodraethol gyda'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol.<br>• Mae gwaith monitro data ar gyfer pob Comisiynydd Heddlu a Throseddu yng Nghymru wedi'i gasglu mewn perthynas â demograffeg defnyddwyr gwasanaeth o fewn gwasanaethau a gomisiynwyd. Bydd y data'n cael ei ddefnyddio i nodi bylchau a thueddiadau o fewn y gwasanaethau a gomisiynwyd.<br>• Mae'r ffrwd waith wedi tynnu sylw at y ffaith y gallai adolygu Gofyn a Gweithredu fod o fudd i asesu a yw'r deunyddiau hyfforddi yn berthnasol i bobl hŷn. Yn ogystal, mae'r ffrwd waith wedi trafod yr angen i adolygu |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | | hyfforddiant diogelu, ac o bosibl adolygu Adolygiadau Dynladdiad Domestig i ganfod faint oedd yn cynnwys pobl hŷn. |
| 4 | Rhoi blaenoriaeth i ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth penodol a dylanwadu arnynt, er mwyn cynyddu'r gydnabyddiaeth i gamdriniaeth ymhlith pobl hŷn, gwybodaeth am y broblem a dealltwriaeth ohoni. | • Mae opsiynau cydweithredol wedi'u sefydlu gyda Chymunedau Mwy Diogel Cymru ar gyfer cyfathrebu.<br>• Cyd-ddibyniaeth wedi'i sefydlu gydag Amcan 2 o Gynllun Gweithredu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gam-drin pobl hŷn, gan adeiladu ar yr ymgyrch bresennol o "Ddylai neb deimlo'n ofnus gartre".<br>• Mae New Pathways wedi cyhoeddi 4 dyddiad ar gyfer hyfforddiant Pobl Hŷn a Thrais Rhywiol i'w ddarparu rhwng Tachwedd 2023 a Ionawr 2024. Mae'r cyflymder y cafodd y sesiynau hyn eu llenwi yn arwydd o'r diffyg gwybodaeth am bobl hŷn a thrais rhywiol, ac o'r galw mawr am y dysgu hwn. Mae'r bobl sydd wedi archebu lle ar y cyrsiau yn dod o ystod eang o sefydliadau gan gynnwys yr Heddlu, staff Gwasanaethau Cymdeithasol, Awdurdodau Lleol, adrannau'r Llywodraeth, a darparwyr Gofal Cymdeithasol; Mae hon yn wybodaeth ddefnyddiol a gall lywio gwaith comisiynu hyfforddiant posibl yn y maes hwn yn y dyfodol. Mae hyfforddiant cryno hefyd yn cael ei ddatblygu ar gyfer ffrwd waith y Glasbrint oherwydd y galw aruthrol. |

DRAFT

## Atodiad B

**Sefydliadau sy’n derbyn cyllid VAWDASV yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru yn 2023-24.**

**Refeniw**

- BAWSO
- Llwybrau Newydd - Trais Rhywiol
- Cymru Ddiogelach - Prosiect Dyn
- Hafan Cymru
- Cymorth i Ferched Cymru
- Cyfannol - Trais Rhywiol
- Canolfan Gymorth Trais a Cham-drin Rhywiol Gogledd Cymru - Trais Rhywiol
- Cerrig Camu - Trais Rhywiol
- Gogledd Cymru - Uned Ddiogelwch Cam-drin Domestig
- Gogledd Cymru - Adferiad
- Bae'r Gorllewin - Trais Rhywiol Calan
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Gwasanaethau Anffurfio organau cenhedlu benywod
- Cymru Ddiogelach
- Streetlife

**Cyfalaf**

- Awdurdod Lleol Bro Morgannwg
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Heddlu Dyfed Powys
- Merthyr Tudful Mwy Diogel
- Cyngor Dinas Casnewydd
- Gwasanaeth Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig Gwent
- Heddlu Gwent
- Heddlu Gogledd Cymru
- Cyngor Sir y Fflint
- Canolfan Argyfwng Teuluol Sir Drefaldwyn
- Ymddiriedolaeth Nelson
- Cymorth i Fenywod Caerdydd Cyf
- Gwasanaethau Cam-drin Domestig Phoenix
- Cymorth i Ferched Cyfannol Cyf
- Hafan Cymru (Stori)
- Uned Ddiogelwch Cam-drin Domestig
- Canolfan Gymorth Trais a Cham-drin Rhywiol Gogledd Cymru
- Grŵp Cynefin
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Heddlu Dyfed-Powys
- Calan - cam-drin domestig a thrais
- Threshold DAS Limited

- Cyngor Dinas a Sir Caerdydd
- Heddlu De Cymru
- Bawso
- Gwasanaethau Cam-drin Domestig Caerfyrddin
- Llamau Ltd
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
- G4S
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Abertawe
- Cymorth i Fenywod

**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol**
**Minister for Social Justice**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/JH-/3406/22

Rt Hon Chris Philp MP
Minister for Crime and Policing

16 November 2022

Dear Minister,

Please accept my congratulations on your recent appointment as Minister for Crime and Policing and I look forward to working with you.

Thank you for providing an overview of the main provisions in the draft ‘Prevention and Reduction of Serious Violence (Strategies Etc.) (Amendment) Regulations 2022’ and the opportunity to comment on the proposals. This is in accordance with section 6(10) of the Crime and Disorder Act 1998 and section 22(3) of the Police, Crime, Sentencing and Courts Act 2022, which specifies that Welsh Ministers should be consulted on secondary legislation relating to the Serious Violence Duty (SVD).

Welsh Government are supportive of the policy approach of the SVD and the intention that services will work together to prevent and reduce serious violence. In the Legislative Consent debate in the Senedd on the Police, Crime, Sentencing and Courts Bill on 18 January 2022, in line with Welsh Government advice, the Senedd gave consent to the SVD clauses.

I am happy to confirm that I am supportive of the substantive provisions in the regulations, I appreciate the regulations are not yet finalised. I welcome the assurance you have given that Home Office officials will continue to engage with my officials in the iterative process of finalising the regulations. I understand that any changes made will primarily be to resolve any technical or drafting issues in the regulations prior to introduction, rather than making any substantive policy changes.

I would like there to be a parallel provision included in the regulations for a SVD strategy to be submitted to Welsh Ministers alongside the Secretary of State, where a strategy is for a local government area in Wales. Welsh Government would want to have sight of strategies published in Wales and it would avoid the need for the Home Office to take the additional

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

step of sharing them with us. I understand that your officials are already working on implementing this change, which is very welcome.

You will be issuing statutory guidance on delivery of the Duty. My officials are liaising with Home Office officials to ensure the guidance properly reflects the different legislative and partnership structures in Wales. We would appreciate a further opportunity to ensure the Welsh context is reflected in the document as a whole prior to the expected publication date of 12 December 2022.

Yours sincerely,

**Jane Hutt AS/MS**
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice

# TROSOLWG Y GLASBRINT TRAIS YN ERBYN MENYWOD, CAM-DRIN DOMESTIG A THRAIS RHYWIOL

Y dull ar y cyd o weithredu'r Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol 2022-2026.


# Y DULL
# GLASBRINT

Cytunwyd ar fabwysiadu dull Glasbrint yn dilyn yr adolygiad 5 mlynedd o weithredu Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Bydd y Glasbrint yn darparu'r strwythur ar gyfer dull gweithredu ar y cyd ar gyfer Cymru i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae Llywodraeth Cymru a Phlismona yng Nghymru wedi gyrru datblygiad y dull Glasbrint yn ei flaen i weithredu Strategaeth Genedlaethol Trais a Cham-drin 2022-2026.

Mae cronni adnoddau a chlustnodi cyllid i gefnogi’r gwaith o sefydlu Tîm Cyflawni Rhaglen Glasbrint Trais a Cham-drin yn dangos arweinyddiaeth ac ymrwymiad ar y cyd i bwysigrwydd y gwaith.

Mae trefniadau llywodraethu ar y cyd wedi'u sefydlu i gynnal trosolwg manwl o'r gwaith a goruchwylir y llywodraethu trwy Fwrdd Partneriaeth Cenedlaethol Trais a Cham-drin, y Bwrdd Rhaglen a'i ffrydiau gwaith.







# TÎM CYFLAWNI'R RHAGLEN

Mae Tîm Cyflawni'r Glasbrint bellach ar waith, i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r blaenoriaethau a rennir ar lefel amlasiantaethol, Cymru gyfan. Mae'r tîm hwn yn cael ei arwain gan Reolwr Gweithredu'r Rhaglen gyda chefnogaeth Arweinydd Plismona yng Nghymru ar gyfer Trais a Cham-drin a Hil, ac Uwch Swyddog Polisi Trais a Cham-drin ar ran Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ledled Cymru.

Mae dyrannu adnoddau i'r rhaglenni a disgyblaethau cyflawni prosiectau yn hanfodol i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Glasbrint yn llwyddiannus, sy'n cynnwys maes gwaith cymhleth ar raddfa fawr.

Bydd y Tîm Cyflawni yn gweithio ochr yn ochr â Thîm Polisi Trais a Cham-drin Llywodraeth Cymru, Tîm Polisi Cyflawni Trais ac adrannau trawslywodraethol fel y bo'n briodol; Gweithio gydag Arweinwyr Strategol o Blismona yng Nghymru i gefnogi cyd-gadeiryddion y ffrydiau gwaith, sy'n dod o sefydliadau / gweithgareddau arweinyddiaeth a phartneriaeth, wrth gyflawni'r cynlluniau gwaith.






Bydd cyd-gadeiryddion y ffrydiau gwaith yn rhoi cyfeiriad strategol, a gyda chefnogaeth gan y Rheolwyr Cyflawni, yn datblygu dull gweithredu cyson.

Bydd aelodau'r ffrydiau gwaith a'r tîm cyflawni yn cefnogi gweithgareddau ar lefel Cymru gyfan yn erbyn pob Cynllun Cyflawni Llif Gwaith.

Bydd y Tîm Cyflawni yn gweithio gyda chyd-gadeiryddion y ffrydiau gwaith i atgyfnerthu cynnydd ac adrodd ar gamau gweithredu a chanlyniadau y cytunwyd arnynt wrth sicrhau bod cynnydd yn parhau i gael ei wneud yn erbyn yr amcanion a nodir yn Strategaeth Genedlaethol Trais a Cham-drin 2022 -26 Llywodraeth Cymru.

Bydd Cyd-gadeiryddion a'r tîm cyflawni yn adrodd ar gynnydd i'r Uwch Swyddogion Cyfrifol ar y cyd sy'n cyd-gadeirio'r Bwrdd Rhaglen Cenedlaethol, sydd wedyn yn adrodd i'r Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol.

Bydd y Tîm Cyflawni yn atgyfnerthu cynnydd ac yn adrodd ar gamau gweithredu a chanlyniadau y cytunwyd arnynt wrth sicrhau bod cynnydd yn parhau i gael ei wneud yn erbyn yr amcanion a nodir yn Strategaeth Genedlaethol Trais a Cham-drin 2022 -26 Llywodraeth Cymru.



# CROESTORIADEDD

## AR DRAWS Y GLASBRINT

Mae'r Glasbrint Trais a Cham-drin wedi ymrwymo i ddull croestoriadol drwy gydol ei waith i ddatblygu ein dealltwriaeth o Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ymhellach a mynd i'r afael ag anghenion amrywiol pawb yr effeithir arnynt, gan gynnwys plant, pobl hŷn, Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, pobl anabl, cymunedau LHDTC+ a Sipsiwn a Theithwyr.

Bydd pob ffrwd waith yn bwrw golwg groestoriadol ar draws ei gwaith i sicrhau eu bod yn ymwybodol o bawb y mae Trais a Cham-drin yn effeithio arnynt.

## CYD-GADEIRYDDION Y **BWRDD PARTNERIAETH CENEDLAETHOL**



**Jane Hutt AS**
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip



**Dafydd Llywelyn**
Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

## CYD-GADEIRYDDION Y **BWRDD RHAGLEN CENEDLAETHOL**



**Emma Wools**
Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru



**Paul Dear**
Dirprwy Gyfarwyddwr Cymunedau Cydlynol Llywodraeth Cymru

# TÎM CYFLAWNI'R GLASBRINT
## TRAIS A CHAM-DRIN

| | |
|---|---|
| **Rheolwr Gweithredu'r Rhaglen Glasbrint** | Llywodraeth Cymru |
| **Uwch Swyddog Polisi** | Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru, ar ran Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ledled Cymru. |
| **Arweinydd Strategol Trais a Cham-drin a Hil** | Heddlu Gwent ar ran Plismona yng Nghymru |
| **3x Rheolwr Cyflawni Polisi** | Cynhelir gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru ar ran Llywodraeth Cymru a Phlismona yng Nghymru |
| **Swyddog Cymorth Prosiect a Pholisi** | a gynhelir gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru ar ran Llywodraeth Cymru a Phlismona yng Nghymru |

# FFRYDIAU GWAITH Y
# GLASBRINT TRAIS A CHAM-DRIN

## 1
**AFLONYDDU AR SAIL RHYW MEWN MANNAU CYHOEDDUS**

Cyd-gadeiryddion

- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Llywodraeth Cymru

## 2
**AFLONYDDU YN Y GWEITHLE**

Cyd-gadeiryddion

- TUC Cymru
- Heddlu Gwent ar ran Plismona yng Nghymru

## 3
**MYND I'R AFAEL Â CHYFLAWNI TRAIS**

Cyd-gadeiryddion

- Cymorth i Ferched Cymru
- HMPPS

## 4
**DULL CYNALIADWY AR DRAWS SYSTEMAU**

Cyd-gadeiryddion

- Cyngor Sir Benfro
- Llywodraeth Cymru

## 5
**ANGHENION POBL HŶN**

Cyd-gadeiryddion

- Age Cymru
- Llywodraeth Cymru

## 6
**ANGHENION PLANT A PHOBL IFANC**

Cyd-gadeiryddion

- Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent
- GIG Cymru

**PANEL CRAFFU A CHYNNWYS LLAIS GOROESWYR**

Cyd-gadeiryddion: Llywodraeth Cymru

# CYD-GADEIRYDDION AC AELODAU
# FFRYDIAU GWAITH

Mae cyd-gadeiryddion y ffrydiau gwaith yn cynnig gweledigaeth, arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol ac maent yn gyfrifol am yrru gweithgareddau ffrwd waith y cytunwyd arnynt yn eu blaen er mwyn llunio polisïau ac arferion fel yr amlinellir yn eu cynlluniau cyflawni.

Maent yn cefnogi Uwch Swyddogion Cyfrifol y Glasbrint gyda sicrwydd rhaglen drwy ddatblygiad y ffrwd waith, monitro a nodi datrysiadau o ran unrhyw broblemau.

Cefnogir y cyd-gadeiryddion i gyflawni amcanion Strategaeth Genedlaethol Trais a Cham-drin 2022-2026 gan aelodau'r ffrydiau gwaith, sy'n cyfrannu arbenigedd, amser ac adnoddau at gyflawni'r cynlluniau llif gwaith.

Mae aelodau'r ffrydiau gwaith yn arweinwyr yn eu maes sy'n cynrychioli ystod eang o sefydliadau a sectorau i ddarparu dull aml-haen, ledled Cymru.

PANEL

# CRAFFU A CHYNNWYS LLAIS GOROESWYR

Mae'r Panel Craffu a Chynnwys Llais Goroeswyr yn cynnwys 8 o oroeswyr trais a cham-drin fel arbenigwyr trwy brofiad. Ein nod yw i'r panel fod yn gynhwysol o bob profiad o drais a cham-drin a chynrychioli cymunedau ledled Cymru.

Pwrpas y Panel Craffu a Chynnwys Llais Goroeswyr yw cefnogi gweithrediad effeithiol Strategaeth Genedlaethol Trais a Cham-drin 2022-26 a'r Rhaglen Glasbrint, ac mae'r ddau beth yn defnyddio dull gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth a arweinir gan ymchwil o ran ymateb i drais a cham-drin. Fel rhan sylfaenol o'n dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth, mae'n hanfodol i ni glywed, a chynnwys lleisiau goroeswyr ar bob lefel; bydd gwneud hynny yn ein cynorthwyo i fynd i'r afael â Thrais a Cham-drin yn effeithiol.

Bydd y Panel Craffu a Chynnwys Llais Goroeswyr yn sicrhau bod yr holl gyngor a gyfeirir at y Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol yn cynnwys safbwynt goroeswyr, ac y bydd lleisiau goroeswyr yn cael eu clywed ar bob lefel o'r strwythur llywodraethu ar gyfer cyflawni'r Strategaeth Trais a Cham-drin.

Rhoddir cyfle i oroeswyr gyflwyno sylwadau, cynghori a herio polisïau a phenderfyniadau a wneir o ran y strategaeth a'r ffrydiau gwaith cysylltiedig. Mae hyn felly'n sicrhau bod profiad ac arbenigedd byw yn cael ei adlewyrchu yn y broses o wneud penderfyniadau strategol yng Nghymru.

# BETH YW HYD A LLED Y CYDWEITHIO?

## Tîm Glasbrint Trais a Cham-drin

Rheolwr Gweithredu'r Rhaglen
Uwch Ymgynghorydd Polisi Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru
Arweinydd Strategol Plismona yng Nghymru ar gyfer Trais a Chamdrin a Hil
Rheolwr Cyflawni Prosiect x3
Swyddog Cymorth Prosiect a Pholisi

## Rhanddeiliaid

Plismona yng Nghymru - Iechyd Cyhoeddus Cymru - HMPPS - HMCTS Cymru - Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru - Comisiynydd Cam-drin Domestig Cymru a Lloegr - Comisiynydd Plant Cymru - Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru - Cymorth i Ferched Cymru - TUC Cymru - BAWSO - GIG Cymru - Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru - Gwasanaeth Ambiwlans Cymru - Cymru Ddiogelach - Age Cymru - Gwasanaeth Erlyn y Goron - New Pathways - Our Streets Now - Plan UK - CCAUC - Rights of Women -Time's Up UK - Y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu (CIPD) - Ffederasiwn Busnesau Bach - ACAS- Chwarae Teg - Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol - Dewis Choice - Prifysgol Caerdydd - Threshold DAS LTD – Relate - Y Weinyddiaeth Gyfiawnder - Stepping Stones - NSPCC - Awdurdodau Lleol - Hourglass - Thrive - Goroeswyr

## Mynd i'r afael Trais a Cham-drin

## Llywodraeth Cymru

Arweinwyr Adran Polisi Trais a Cham-drin a Chyflawni Trais
Ymgynghorwyr Trais a Cham-drin Annibynnol Cenedlaethol
Uwch Reolwyr Polisi Trais a Cham-drin a Chyflawni Trais
Rheolwyr Polisi Trais a Cham-drin
Holl adrannau Llywodraeth Cymru/ Uwch Reolwyr Polisi.

Yn gywir ym mis Hydref 2023

# STRWYTHUR LLYWODRAETHU'R

# GLASBRINT TRAIS A CHAM-DRIN

**Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol Trais a Cham-drin**
Cyd-gadeiryddion
Jane Hutt AS, Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip a'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Dafydd Llywelyn ar ran Plismona yng Nghymru.

Cwrdd yn chwarterol - darparu trosolwg, sicrhau atebolrwydd a chyfeiriad. Cyd-Uwch Swyddogion Cyfrifol a Chadeiryddion (Paul Dear ac Emma Wools) i adrodd ar Fwrdd y Rhaglen drwy gyfrwng adroddiad uchafbwyntiau ysgrifenedig i'r Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol.

**Aelodaeth:**
Cyd-Uwch Swyddogion Cyfrifol, Comisiynydd Cam-drin Domestig, cyrff anllywodraethol, Plismona

CCyd-gadeiryddion i adrodd am gynnydd i:
Traws-Gabinet a Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru.
(Amlder i'w benderfynu)

**Panel Craffu a Chynnwys Llais Goroeswyr**
Llwybr cyson a chynhwysol Cymru gyfan sy'n galluogi'r rhai sydd â phrofiadau byw i lywio cyfeiriad polisi a chraffu ar weithrediad Cyflawni'r Glasbrint. Profiadau trais a cham-drin ac o grwpiau ymgysylltu goroeswyr a sefydlwyd ymlaen llaw

**Bwrdd Rhaglen Glasbrint Trais a Cham-drin**
Cyd-Uwch Swyddogion Cyfrifol (Paul Dear ac Emma Wools) i adrodd drwy gyfrwng adroddiad uchafbwyntiau ysgrifenedig bob chwarter i'r Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol.

Cwrdd yn chwarterol - Cymru gyfan, bydd gwaith yn cael ei arwain gan y Glasbrint drwy'r ffrydiau gwaith cytunedig a rhoi'r camau gweithredu allweddol ar waith. Arweinwyr ffrydiau gwaith i adrodd drwy gyfrwng adroddiadau uchafbwyntiau at Fwrdd Rhaglen y Glasbrint Trais a Cham-drin.

**Aelodaeth:**
Cymru gyfan, cynrychiolaeth draws-sector, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Iechyd, Addysg, yr Heddlu, Comisiynwyr yr Heddlu, HMPPS a Sefydliadau Arbenigol Anllywodraethol, gan adlewyrchu'r cyrff hynny sydd â dyletswyddau allweddol wrth fynd i'r afael â thrais a cham-drin

**Ffrwd Waith 1**
Aflonyddu ar sail rhyw mewn mannau cyhoeddus

**Ffrwd Waith 2**
Aflonyddu yn y gweithle

**Ffrwd Waith 3**
Mynd i'r afael â Chyflawni Trais

**Ffrwd Waith 4**
Dull Cynaliadwy ar draws Systemau

**Ffrwd Waith 5**
Anghenion Pobl Hŷn

**Ffrwd Waith 6**
Anghenion Plant a Phobl Ifanc

## BLE YDYN NI NAWR?

Cyhoeddwyd y Cynllun Gweithredu Glasbrint Lefel Uchel ym mis Mawrth 2023. Mae'r Cynllun hwn yn disgrifio pwrpas pob un o'r ffrydiau gwaith ac yn nodi eu camau gweithredu lefel uchel, a fydd yn cyfrannu at Amcanion Cenedlaethol Strategaeth Trais a Cham-drin 2022 i 2026. I weld y cynllun lefel uchel, ewch i'r ddolen isod:

https://www.llyw.cymru/trais-yn-erbyn-menywod-cam-drin-domestig-thrais-rhywiol-cynllun-gweithredu-lefel-uchel-y-0

Bydd diweddariad cynnydd yn cael ei gyhoeddi yn ystod yr hydref 2023.





## SUT I GADW MEWN CYSYLLTIAD?

I dderbyn cylchlythyr y Glasbrint Trais a Cham-drin a diweddariadau rheolaidd tanysgrifiwch trwy'r ddolen isod:

Dolen**

# MEWNWELEDIADAU GLASBRINT TRAIS A CHAM-DRIN

5 — Cyfarfodydd y Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol

6 — Cyfarfodydd Bwrdd Rhaglen Cenedlaethol

42 — Cyfarfodydd Ffrydiau Gwaith

4 — Cyfarfodydd y Panel Craffu a Chynnwys Llais Goroeswyr

155 — Aelodau ar draws y Glasbrint Trais a Cham-drin

Yn gywir ym mis Hydref 2023



# DIOLCH

Lluniwyd Medi 2023